Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/LG/1863/18
Mike Hedges AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd
a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

20 Mehefin 2018

Annwyl Mike

Ym mis Rhagfyr 2017, roeddech wedi cyhoeddi adroddiad yn sgil craffu ar gyllideb ddrafft 2018-19 Llywodraeth Cymru. Roedd argymhelliad 10 yn nodi bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru, gadw llygad ar gapasiti Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i swyddogaethau statudol.

Roedd yr argymhelliad yn gofyn am adroddiad cychwynnol ar y mater hwn o fewn chwe mis. Mae'r adroddiad atodedig wedi'i lunio gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Ar 27 Mawrth 2018, cadarnhawyd mai cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2018-19 yw £197.4 miliwn (gan gynnwys ~£13 miliwn o gyllid 'diwedd blwyddyn' ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol hyd at 2022, ac mae'r Bwrdd wedi cytuno ar Strategaeth Gyllid Cyfoeth Naturiol Cymru hyd at 2022 a'i Gynllun Busnes ar gyfer 2018-19.

Mae lefel sylweddol y cyllid y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei dderbyn wedi caniatáu iddo bennu targedau uchelgeisiol yn ei Gynllun Busnes, fodd bynnag, hoffai pe bai modd iddo gyflawni mwy.

Mae ei gynlluniau a'i strategaethau yn adlewyrchu ei flaenoriaethau o ran cyflawni. Mae ei swyddogaethau statudol wedi newid ers hynny yn sgil Deddfau, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'r Deddfau hyn yn egluro sut y disgwylir i Cyfoeth Naturiol Cymru weithio a chyflawni, ar y cyd â phartneriaid, dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion yn parhau i drafod y weledigaeth ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol, gan gynnwys edrych yn strategol ar feysydd blaenoriaeth.

Yn gywir

Lesley

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 Llywodraeth Cymru: Rhagfyr 2017

Ymateb Cychwynnol i Argymhelliad 10 gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru

Y Cefndir

Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig adroddiad ym mis Rhagfyr yn sgil craffu ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 Llywodraeth Cymru. Un o'r 15 argymhelliad oedd:

> Rhaid i Lywodraeth Cymru, mewn trafodaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru, gadw llygad ar gapasiti Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i swyddogaethau statudol. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad cychwynnol ar y mater hwn i'r Pwyllgor o fewn chwe mis.

Y cyd-destun o ran cyllid

Mewn llythyr at Weinidog yr Amgylchedd ar 12 Hydref 2017, disgrifiodd Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru ei sefyllfa bresennol a'i sefyllfa yn y dyfodol yn ôl pob tebyg mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft (fel yr amlinellwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn ei ddatganiad ar 3 Hydref 2017).

Ar 27 Mawrth 2018, cadarnhawyd mai ei gyllideb ar gyfer 2018/19 yw £197.4 miliwn (gan gynnwys £13 miliwn o gyllid 'diwedd blwyddyn' ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru). Mae hefyd wedi cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol hyd at 2022. Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar eu Strategaeth Gyllid hyd at 2022 a'u Cynllun Busnes ar gyfer 2018/19. Ar ôl derbyn eu llythyr cylch gwaith, gall y Prif Weithredwr (ag awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd) roi ei chymeradwyaeth derfynol iddo. Mae lefel sylweddol y cyllid y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei dderbyn wedi caniatáu iddynt bennu targedau uchelgeisiol yn eu Cynllun Busnes, fodd bynnag, hoffent pe bai modd iddynt gyflawni mwy.

Mae eu cynlluniau a'u strategaethau yn adlewyrchu eu blaenoriaethau o ran cyflawni. Ceir crynodeb o rolau a chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru yma. Mae eu swyddogaethau statudol, a bennwyd adeg creu'r sefydliad, yn cael eu hadlewyrchu i raddau helaeth yma. Mae'r rhain wedi newid ers hynny yn sgil Deddfau, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015). Mae'r dogfennau hyn yn egluro sut y disgwylir i Cyfoeth Naturiol Cymru weithio a chyflawni, ar y cyd â phartneriaid, dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Cyllid a chynllunio

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli ei gyllid i gyflawni'r targedau o ran gwariant ariannol o flwyddyn i flwyddyn. Bydd yn cyflawni'r arbedion a nodwyd yn yr Achos Busnes dros sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae hyn wedi cynorthwyo â'r gostyngiad mewn cyllid Cymorth Grant. Fodd bynnag, er bod y gostyngiadau mewn cyllid bellach yn fwy na'r arbedion, mae'n datblygu cynlluniau i sicrhau ei fod yn barod am y cyfleoedd a'r risgiau yn sgil Brexit.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru am barhau i gyflawni ei waith yn effeithiol yn y dyfodol. Mae'r swyddogion yn trafod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru sut y gallent eu helpu i wneud hyn, a gallai hynny gynnwys darparu ffynonellau cyllid tymor hwy. Mae'r swyddogion hefyd yn trafod blaenoriaethau hirdymor gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Dylai'r ddau beth hyn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i wella'r gwaith o gynllunio a chyflawni eu gweithgareddau craidd.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gynlluniau i gynyddu ffynonellau cyllid eraill, megis ffrydiau incwm masnachol newydd a phresennol a chynlluniau codi tâl. Bydd angen trafod hyn ymhellach gyda'r swyddogion a bydd angen cefnogaeth a chymeradwyaeth gan y Gweinidog i gyflawni'r uchelgais hwn.

Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Yn y llythyr at y Gweinidog, tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at rai o'r prif ffyrdd y mae'n credu y gallai Llywodraeth Cymru ei gefnogi i gyflawni ei waith yn y tymor hir. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i gadw incwm o ddatblygiadau ffermydd gwynt ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru (ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ildio'r incwm hwn i Lywodraeth Cymru)
- Cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru i dalu'r costau mewn meysydd lle'r ydym yn codi tâl yn uniongyrchol ar gwsmeriaid, e.e. cynyddu taliadau
- Rhoi cyllid Cymorth Grant craidd i ni ar gyfer ein dyletswyddau 'newydd' (e.e. Deddf Cronfeydd Dŵr)
- Cyllido gwerthuso swyddi (rhan o symud tuag at gynllun newydd ar gyfer y sefydliad)
- Darparu cyllid hirdymor ar gyfer gweithgarwch iechyd coed (sy'n cael dyraniadau cyllid blynyddol ar hyn o bryd)

Derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyllid untro ychwanegol (~£13 miliwn) yn 2018/19 ar gyfer ei ddyletswydd newydd mewn perthynas â chronfeydd dŵr ac iechyd coed. Fodd bynnag, mae wedi'i gyllido ei hun ar gyfer effaith cydgrynhoi dyfarniad cyflog 2017/18 yn 2018/19. Mae wedi adlewyrchu'r cynnydd o ran cost gwerthuso swyddi drwy ganiatáu i'r staff ddewis peidio â chymryd rhan, gan ymestyn y cyfnod pan fydd yn talu am ddiogelu cyflogau.

Mae swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi dechrau trafodaethau ynghylch meysydd cefnogaeth eraill, gan gynnwys y posibilrwydd o'r canlynol:

- Blaenoriaethu Cymorth Grant mewn modd agored a thryloyw a chyfleoedd i Cyfoeth Naturiol Cymru ddylanwadu ar y gyllideb
- Cynyddu'r cyllid cyfalaf nad yw am lifogydd, sy'n annigonol ar hyn o bryd
- Setliadau cyllid tymor hwy, neu gyflwyno cyllid gwaelodol, am dymor o lywodraeth
- Peidio â chlustnodi cyllid Cymorth Grant, megis cyllid am lifogydd a chyllid nad yw am lifogydd, er mwyn rhoi cefnogaeth well i waith sy'n creu llawer o fuddion
- Cymorth cyfreithiol i ddileu'r cyfyngiadau ar greu ffrydiau incwm masnachol newydd, megis pwerau i fasnachu
- Gwaith cyllido i sicrhau bod gwaith ar y cyd i baratoi at Brexit yn datblygu'n gyflym.

Ymateb i gyllid sy'n lleihau

Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn creu cynllun sefydliadol newydd sy'n seiliedig ar sut mae'n credu y bydd ei sefyllfa o ran cyllid yn y dyfodol. Felly, er enghraifft, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu bod gostyngiad o £6 miliwn mewn Cymorth Grant dros ddwy flwyddyn ariannol yn golygu y bydd angen iddo leihau ei strwythur yn 2020 i ymateb i hynny.

Bydd y cynllun sefydliadol newydd yn adlewyrchu realiti disgwyliedig ei sefyllfa o ran cyllid yn y dyfodol. Bob blwyddyn, mae'n cynllunio ei weithgarwch yn ôl yr adnoddau y mae'n disgwyl a fydd ar gael. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r swyddogion wedi dechrau trafodaethau i nodi gweithgareddau y gellid eu darparu'n wahanol/ar y cyd ag eraill eleni, neu weithgareddau y gellid eu hatal. Mae'r trafodaethau hyn hefyd wedi dechrau ystyried y gweithgareddau hynny y gellid eu cyflawni'n arafach.

Mae'r trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt, ac nid yw'n hawdd eu cwblhau. Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio i ddod i gytundeb ynghylch sut y mae'r gweithgareddau hyn yn cyflawni blaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru a gofynion statudol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Crynodeb

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn cydweithio, ochr yn ochr â'u cyd-bartneriaid, i gadw llygad ar gapasiti Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i swyddogaethau statudol. Mae'r ddau sefydliad yn gweithio i ddatblygu ymdeimlad o flaenoriaethau ar y cyd, yn seiliedig ar y cyllid i'w cefnogi.